Gyrfa Cymru
Careers Wales

Bwletin LMI Gyrfa Cymru: Mehefin 2024

Swyddi Dyfodol Cymru

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur NEWYDD - SWYDDI DYFODOL CYMRU

Swyddi Dyfodol Cymru yw cynnyrch gwybodaeth am y farchnad lafur rhyngweithiol diweddaraf Gyrfa Cymru sy'n cyflwyno'r tueddiadau diweddaraf o ran gwybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer rhanbarthau a diwydiannau Cymru.

Gallwch ddod o hyd i Swyddi Dyfodol Cymru ar hafan gwefan Gyrfa Cymru, chwiliwch ar yr eicon.

Swyddi Dyfodol Cymru

Archwiliwch ranbarthau a diwydiannau Cymru. Dysgwch pa swyddi y gallech chi eu gwneud, nawr ac yn y dyfodol.

Mae dau opsiwn i gwsmeriaid bori gwybodaeth am y farchnad lafur yn Swyddi Dyfodol Cymru

- Ffocws ar Ddiwydiant penodol, neu
- Rhanbarth penodol o Gymru

Mae'r ddau opsiwn yn galluogi cwsmeriaid i hidlo data gwybodaeth am y farchnad lafur fesul pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae 3 Diwydiant ar gael:

Swyddi mewn Adeiladu

Swyddi mewn Ynni

Swyddi mewn Iechyd

Bydd y gyfres lawn yn cynnwys 16 o wahanol ddiwydiannau, sy'n cael eu datblygu yn ystod 2024-25.

Beth am yr wybodaeth am y farchnad lafur leol ?

Mae'r datblygiad diweddaraf yng nghyfres Swyddi Dyfodol Cymru yn cyflwyno gwybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer 4 rhanbarth Cymru, gyda ffocws newydd ar sgiliau y mae galw amdanynt. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â'r 4 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru.

Mae Rhanbarthau Swyddi Dyfodol Cymru yn cynnwys GML ar 15 o wahanol ddiwydiannau yng Nghymru.

Swyddi yng Ngogledd Cymru

Swyddi yng Nghanolbarth Cymru

Swyddi yn Ne-orllewin Cymru

Swyddi yn Ne-ddwyrain Cymru

Beth mae Swyddi Dyfodol Cymru yn ei wneud?

Mae'n gynnyrch rhyngweithiol sy'n ceisio adrodd stori gwybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer y gwahanol ddiwydiannau yng Nghymru; pa mor fawr ydynt, pa fath o gyfleoedd gwaith y maent yn eu cynnig, os disgwylir iddynt dyfu, a pha swyddi y mae'r galw mwyaf amdanynt yng Nghymru, ar draws rhanbarthau ac awdurdodau lleol Cymru.

Gall defnyddwyr archwilio:

- Tueddiadau'r farchnad lafur yn eu hardal leol
- Cymharu tueddiadau â'r darlun ehangach ar gyfer Cymru a'r DU
- Trosolwg o'r diwydiant
- Beth sy'n newydd yn y diwydiant a'r sgiliau y mae galw amdanynt
- Maint y diwydiant
- Detholiad o rolau Swyddi ac ystodau cyflog bras
- Twf yn y dyfodol: a oes disgwyl i'r diwydiant dyfu neu grebachu yn ystod y 5 mlynedd nesaf?
- Pa swyddi sydd eu hangen nawr, beth yw'r prif swyddi gwag?
- Dolenni i fwy o broffiliau swyddi unigol o'n tudalen Gwybodaeth am Swyddi

O ble mae'r data'n dod? Sut bydd yn cael ei gadw'n gyfredol?

Daw'r data o:

- Lightcast™, storfa o wybodaeth am y farchnad lafur drwyddedig fyd-eang a chwmni modelu.
- Ein hymchwil gwybodaeth am y farchnad lafur Gyrfa Cymru ein hunain.

Mae data Lightcast™ yn cael ei greu o gasgliad o ffynonellau llywodraeth. Rydym yn defnyddio porthiant data uniongyrchol (api) gan Lightcast™, sy'n ein galluogi i gadw'r data'n gyfredol.

Lightcast™ sydd hefyd yn darparu dadansoddeg data ar bostiadau swyddi (swyddi gwag ar-lein). Maent yn chwilio ac yn hidlo miloedd o swyddi gwag ar-lein i'n galluogi ni i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am swyddi a sgiliau y mae galw amdanynt.

Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2020

Fel rhan o'r datblygiad newydd hwn, rydym wedi diweddaru'r holl ddata a gyflwynwyd i'r fersiwn ddiweddaraf o Ddosbarthiad Galwedigaethol Safonol SYG (SOC 2020)

Dysgwch fwy am gyrchu data Gyrfa Cymru.

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn!

Dyma fersiwn beta o Swyddi Dyfodol Cymru a'r iteriad cyntaf o gynnyrch gwybodaeth am y farchnad lafur y byddwn yn ei ddatblygu yn y dyfodol.

Rydym am glywed eich barn am y cynnyrch newydd:

- Ydy'r cynnwys yn werthfawr?
- Beth sydd ar goll?
- Sut allwn ni ei wella?

Byddwn yn cynnal gwerthusiad ffurfiol ond yn croesawu unrhyw sylwadau ac awgrymiadau. Cysylltwch â gwybodaeth@gyrfacymru.llyw.cymru